**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 9 Gorffennaf 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe ) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Rob Jones | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Ray Selby | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Jonathan Burnes | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (Cyngor Abertawe) |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata - y Fargen Ddinesig (Cyngor Sir Gâr) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Nicola Pearce | Cyfarwyddwr Amgylchedd (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |
| Ian Westley | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Benfro) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant), Edward Tomp (Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd), Steve Wilks (Prif Ysgol Abertawe) a/ac Emma Woollett (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)
Richard Arnold (Rheolwr Cyllid Dinas-ranbarth Abertawe (Dinas-ranbarth Bae Abertawe)) a/ac Steve Phillips (Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot))

---

## 69 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 70 Cofnodion.

**Penderfynwyd** llofnodi a chymeradwyo Cofnodion Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir.

## 71 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 72 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 73 Dyfarnu Amodau Ariannu.

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) a oedd yn amlinellu statws amodau Dyfarnu Cyllid Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cyflwyno'r adroddiad statws i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

## 74 Cynllun Monitro a Gwerthuso.

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Monitro a Gwerthuso Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n cyd-fynd ag argymhelliad adolygiad allanol.  Fe'i cydnabyddir hefyd fel arfer Rheoli Rhaglen da.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cynllun Monitro a Gwerthuso Bargen Ddinesig Bae Abertawe i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w ystyried.

## 75 Achos Busnes y Rhaglen.

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) a oedd yn dweud bod angen Achos Busnes ar gyfer Rhaglen y Fargen Ddinesig er mwyn cyflawni argymhelliad a gododd o'r adolygiadau a gyflawnwyd ar y Fargen Ddinesig.  Fe'i cydnabyddir hefyd fel arfer Rheoli Rhaglen da.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Achos Busnes ailddiwygiedig ar gyfer Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w ystyried.

## 76 Cynllun Gweithredu.

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) a oedd yn rhoi gwybod am Gynllun Rhoi ar Waith Bargen Ddinesig Bae Abertawe sydd wedi'i ddiweddaru.

**Penderfynwyd** adolygu fersiwn ddiweddaraf Cynllun Rhoi ar Waith Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i chymeradwyo.

## 77 Cyllideb Ddiwygiedig y Cyd-bwyllgor 2010/2021.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Chris Moore) adroddiad a oedd yn rhoi gwybod am gyllideb ddiwygiedig mewn perthynas â'r swyddogaethau gweinyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** ystyried y gyllideb ddiwygiedig mewn perthynas â'r weinyddiaeth y mae ei hangen i gefnogi a chyflwyno Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a'i chymeradwyo.

## 78 Asesiad Effaith Covid-19.

Cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) a oedd yn darparu trosolwg o'r hunanasesiadau o effaith COVID-19 ar gyfer naw prosiect Bargen Ddinesig Bae Abertawe, a diweddariad ar eu statws.

**Penderfynwyd** derbyn y diweddariad am statws yr asesiad effaith COVID-19.

## 79 Cyd-bwyllgor Craffu - Newidiadau i'r Cylch Gorchwyl.

Cyflwynwyd adroddiad gan Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Tracey Meredith) a oedd yn amlinellu cais gan y Cyd-bwyllgor Craffu i newid y cylch gorchwyl.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r diwygiad i'r cylch gorchwyl a nodwyd ym Mharagraff 1.5 y Cyd-bwyllgor Craffu;

2) Awdurdodi Swyddog Monitro Cyngor Abertawe/Penaethiaid Adrannau Cyfreithiol Cynghorau Sir Gâr, Sir Penfro a Chastell-nedd Port Talbot i ymrwymo i gytundeb sy'n angenrheidiol i gyflawni'r newidiadau i Gytundeb y Cyd-bwyllgor.

## 80 Diweddariad Prosiectau. (Llafar)

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe (Jonathan Burnes) ddiweddariad ar y prosiectau sy'n rhan o Raglen y Fargen Ddinesig. Mae'r prosiectau hyn yn cynnwys:

- Isadeiledd digidol;

- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer;
- Prosiect Campws Gwyddor Bywyd a Lles;
- Datblygiad Gwyddor Bywyd a Lles yn yr arfaeth ar gyfer Llanelli;
- Prosiect Morol Doc Penfro;
- Sgiliau a doniau;
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel;
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau;
- Yr Egin.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariadau a'r cynnydd.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.29 am

**Cadeirydd**